COFNODION CYFARFOD PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU PWNC 2 A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB DDYDD LLUN, 23 MEDI 2024 AM 10:00

Yn Bresennol

Y Cynghorydd F D Bletsoe – Cadeirydd

| | | |
|---|---|---|
| G H Haines | J Llewellyn-Hopkins | R J Smith |

Yn Bresennol yn Rhithwir

| | | | |
|---|---|---|---|
| C Davies | P Ford | M Lewis | A Wathan |
| R Williams | | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

D T Harrison a R L Penhale-Thomas

Gwahoddedigion:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Jane Gebbie | Dirprwy Arweinydd / Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Lles |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Jackie Davies | Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion |
| Shagufta Khan | Arweinydd Gwaith Cymdeithasol mewn Gofal Cymdeithasol Oedolion |
| Michelle King | Rheolwr Grŵp - Gwasanaethau Cymunedol Integredig - Ailalluogi yn y Gymuned |
| Sophie Moore | Rheolwr Grŵp - Atal a Lles |
| Julia Wilkinson | Rheolwr Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymunedol - Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Stephen Griffiths | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Meryl Lawrence | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Craffu |

Datgan Buddiannau

Y Cynghorydd J Llewellyn-Hopkins – personol - eitem 4 – Rhesymau teuluol.
Y Cynghorydd R J Smith – personol – eitem 5.

Claire Marchant – rhagfarnus – eitem 4 – Rhesymau teuluol.

## 6. Cymeradwyo Cofnodion

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 2 ar 8 Gorffennaf 2024 yn gofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 23 Medi 2024 |

## 7. Pecyn Oedi Gofal y Tîm Adnoddau Cymunedol

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrafodaethau gydag Aelod Cabinet a Swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion a'r ceisiadau canlynol am wybodaeth ychwanegol:<br><br>**Argymhellion**<br><br>1. Croesawodd y Pwyllgor yr adroddiad a'r ymatebion cynhwysfawr a ddarparwyd gan yr Aelod Cabinet a Swyddogion, fodd bynnag, amlygodd yr adroddiad faterion a pherfformiad ar lefel ranbarthol, ac roedd hi'n anodd deall a chraffu ar y materion penodol ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. **Argymhellodd** y Pwyllgor fod angen i adroddiadau yn y dyfodol sy'n seiliedig ar wasanaethau a ddarperir yn rhanbarthol ddarparu trosolwg, yn rhannol o leiaf, a dadansoddiad beirniadol o faterion a pherfformiad penodol ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. |

| | |
|---|---|
| | 2. **Argymhellodd** y Pwyllgor fod Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr yn cael ei ddefnyddio'n barhaus i gynnal ymgyrchoedd targedig penodol mewn ardal leol i recriwtio pobl i weithio ym maes gofal cymdeithasol.<br><br>3. **Argymhellodd** y Pwyllgor fod y Cadeirydd yn ysgrifennu at Weinidog cyfrifol Llywodraeth Cymru i amlinellu pryderon yr Aelodau am y galw am wasanaethau a'r adnoddau sydd ar gael i'w darparu.<br><br>**Gwybodaeth Ychwanegol**<br>4. Trafododd yr Aelodau, yn ogystal â ward yn Ysbyty Tywysoges Cymru, fod gwelyau mewn ysbytai cymunedol yn y ddwy ardal awdurdod lleol arall yn y rhanbarth nad oeddent wedi'u dyrannu fesul ardal awdurdod lleol, a dywedodd efallai na fyddai'r rhain yn addas ar gyfer cleifion o Ben-y-bont ar Ogwr a'u teuluoedd am amryw o resymau. Croesawodd y Pwyllgor fod trafodaethau ar hyn o bryd yn y cam dylunio a datblygu i ailddatblygu Ysbyty Cymunedol Maesteg a **gofynnodd** am gael diweddariad pellach ar ailddatblygu Ysbyty Cymunedol Maesteg, pan fydd ar gael.<br><br>5. **Gofynnodd** y Pwyllgor am wybodaeth fanylach am gyfansoddiad, rhaglen waith, a pherfformiad y Bwrdd Cyflawni Rhyddhau Integredig.<br><br>6. **Gofynnodd** y Pwyllgor am gael derbyn Adroddiad Blynyddol diweddaraf Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg, Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad, ac Adroddiadau'r Strategaeth Gomisiynu.<br><br>7. **Gofynnodd** y Pwyllgor am wybodaeth am ymgynghoriadau cyfredol ac arfaethedig ar sail barhaus, er mwyn peidio â cholli cyfleoedd i gyfrannu at ddatblygiadau gwasanaethau yn lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 23 Medi 2024 |

## 8. Cynnig i Ymestyn Tymor y Bartneriaeth Byw'n Iach gyda GLL / HALO Leisure

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrafodaethau gydag Aelod Cabinet a Swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion a'r ceisiadau canlynol am wybodaeth ychwanegol:<br><br>**Argymhellion**<br><br>8. Nododd yr aelodau y rheolaethau, gan gynnwys pennu nifer y canolfannau hamdden a'u horiau agor, y byddai'r Cyngor yn eu cynnal pe bai'r contract presennol gyda HALO Leisure yn cael ei ymestyn yn y tymor byr. Roedd y rheolaethau hyn yn rhoi cyfleoedd i'r Cyngor gyflawni arbedion effeithlonrwydd cyllidebol drwy'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (SATC) a byddai estyniad tymor byr i'r cytundeb partneriaeth yn rhoi'r amser sydd ei angen i gadarnhau cyfeiriad strategol tymor hwy y Cyngor ac i fwy o sefydlogrwydd economaidd ddod i'r amlwg. O'r herwydd, mynegodd yr Aelodau hyder yn y dull a gyflwynwyd yn yr adroddiad mewn perthynas â'r manteision o ymestyn y berthynas â HALO Leisure yn y tymor byr ac ar y sail honno, **argymhellodd** y Pwyllgor bod y Bartneriaeth gyda HALO Leisure yn cael ei hymestyn yn y tymor byr.<br><br>9a. **Argymhellodd** y Pwyllgor gyflwyno adroddiad pellach ar yr adeg briodol ynghylch y strategaeth hirdymor barhaus a'r goblygiadau ymarferol dilynol ar gyfer sicrhau gwasanaethau lles i bobl y Fwrdeistref Sirol ac y dylai'r adroddiad gynnwys dadansoddiad mwy beirniadol o'r holl opsiynau sydd ar gael i'r Cyngor.<br><br>9b. Argymhellodd y Pwyllgor wahodd cynrychiolwyr HALO Leisure i gyfarfodydd y Pwyllgor Craffu yn y dyfodol sy'n ystyried y Bartneriaeth Byw'n Iach gyda GLL / HALO Leisure.<br><br>**Gwybodaeth Ychwanegol**<br><br>10. **Gofynnodd** y Pwyllgor am fwy o wybodaeth am yr ymarfer sy'n cael ei wneud gyda phartneriaid allanol i benderfynu ar strategaeth hirdymor ar gyfer gwasanaethau lles. Mae'r adroddiad yn nodi sut y gallai estyniad tymor byr o'r cytundeb partneriaeth roi'r amser sydd ei angen i gadarnhau cyfeiriad strategol tymor hwy y Cyngor ac am fwy o sefydlogrwydd economaidd i ddod i'r amlwg. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 23 Medi 2024 |

## 9. Adroddiad Gwybodaeth - Perfformiad Chwarter 4 2023-24

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Nododd y Pwyllgor gyhoeddi'r adroddiad gwybodaeth ar adroddiad Perfformiad Chwarter 4 2023-2024. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 23 Medi 2024 |

## 10. Diweddariad ar y Flaenraglen Waith

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>11. **Argymhellodd** Aelodau, o ystyried nifer yr adroddiadau cyn penderfynu sy'n debygol o fod angen craffu arnynt yn ystod y misoedd nesaf, y dylid ystyried trefnu cyfarfod ychwanegol o'r Pwyllgor cyn y Nadolig. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 23 Medi 2024 |

## 11. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Dim |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 23 Medi 2024 |

I wylio trafodaeth bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon.

Daeth y cyfarfod i ben am 13:10.